**Cyflwynwyd yr ymateb hwn i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)**

**This response was submitted to the Children, Young People and Education Committee on the Welsh Language and Education (Wales) Bill**

**WLE 12**
**Ymateb gan: Cyngor y Gweithlu Addysg**
**Response from: Education Workforce Council (EWC)**

---

**Papur ysgrifenedig gan Gyngor y Gweithlu Addysg (CGA) i baratoi ar gyfer rhoi tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 9 Hydref 2024 gan Hayden Llewellyn (Prif Weithredwr CGA) ac Eithne Hughes (Cadeirydd Cyngor CGA) ar egwyddorion cyffredinol Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru).**

CGA yw rheoleiddiwr proffesiynol, annibynnol y gweithlu addysg yng Nghymru. Rydym yn rheoleiddio ymarferwyr addysg ar draws ysgolion, addysg bellach, gwaith ieuenctid ac addysg oedolion/dysgu seiliedig ar waith. Mae Deddf Addysg (Cymru) 2014 yn nodi ein nodau a'n swyddogaethau yn ffurfiol.

Er mwyn rheoleiddio'r gweithlu, mae'n ofynnol i ni gynnal Cofrestr o Ymarferwyr Addysg (y Gofrestr). O ganlyniad, mae'r Gofrestr yn darparu ffynhonnell gyfoethog o ddata am gyfansoddiad y gweithlu addysg yng Nghymru, ar draws 13 grŵp gwahanol o ymarferwyr cofrestredig. Mae ein data yn cynnwys gwybodaeth am y gweithlu, fel:

- Y gallu i siarad Cymraeg, addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, addysgu Cymraeg fel ail iaith
- Recriwtio a chadw
- Cyflogaeth (gan gynnwys cyfnod, pwnc, cyfrwng Cymraeg, dwyieithog neu gyfrwng Saesneg)
- Niferoedd yr athrawon a hyfforddodd trwy gyfrwng y Gymraeg
- Y gweithlu cyflenwi a'u gallu o ran y Gymraeg

Yn rhan o'n tystiolaeth lafar, byddwn yn darparu trosolwg lefel uchel o'n data; fodd bynnag, byddem yn croesawu'r cyfle i roi briff manwl i Lywodraeth Cymru a/neu'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar ein data. Rydym wedi darparu briffiau data tebyg (a diweddariadau eraill) i Grŵp Gweithredu Allanol – Gweithlu'r Gymraeg mewn Addysg Llywodraeth Cymru, yr ydym yn aelod ohono.

Ar sail y deallusrwydd hwn, ynghyd â gwybodaeth a gasglwyd trwy ein swyddogaethau statudol eraill, y byddwn yn hoelio sylw ein tystiolaeth lafar ar y canlynol:

- maint yr her a graddau'r adnoddau y bydd eu hangen i gyflawni targed 2050
- ystyried effaith gofynion amrywiol y Bil (a restrir isod) ar y gweithlu addysg presennol ac yn y dyfodol, gan gynnwys goblygiadau'n gysylltiedig â llwyth gwaith, recriwtio a chadw, a dysgu proffesiynol:
    - dyletswydd ar Weinidogion Cymru i adolygu safonau'r Gymraeg yn gysylltiedig â gwella nesu asesu medrau Cymraeg y gweithlu
    - y nod bod disgyblion yn cyflawni hyfedredd (C1/C2) mewn ysgolion Cymraeg yn bennaf, ac annibyniaeth (B1/B2) mewn ysgolion categori arall
    - gosod gofyniad ar Weinidogion Cymru i lunio fframwaith yn amlinellu sut byddant yn gweithredu cynigion strategaeth y Gymraeg yn gysylltiedig ag addysg Gymraeg, dysgu Cymraeg (gydol oes), a chaffael y Gymraeg

    - gofyniad bod awdurdodau lleol yn paratoi ac yn gweithredu cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg yn amlinellu sut byddant yn hyrwyddo a hwyluso addysg Gymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg mewn ysgolion o fewn eu hardaloedd
- newidiadau i'r diffiniadau o allu Cymraeg, ar sail y Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd (CEFR)
- categoreiddio ysgolion yn ôl faint o addysg Gymraeg maen nhw'n ei darparu
- y cyfleodd a'r heriau sy'n gysylltiedig â'r gofyniad bod cyrff llywodraethol ysgolion yn datblygu cynllun cyflwyno addysg Gymraeg, mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol
- y sail statudol ar gyfer y corff newydd arfaethedig, yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol, a'r cyfleoedd y mae hyn yn eu cynnig
- yr angen am gydweithredu strategol parhaus trwy gydol y cyfnod gweithredu a'r tu hwnt; bydd yn hanfodol i Lywodraeth Cymru barhau i weithio'n agos gyda rhanddeiliaid allweddol i gynnal dull cydlynus, â ffocws, ar gyfer cyflwyno yn y maes polisi allweddol hwn
- gwaith pellach i asesu graddau effaith debygol y mesurau helaeth sydd wedi'u hamlinellu yn y Bil ar lwyth gwaith athrawon, gweithwyr cymorth dysgu ac arweinwyr ar draws Cymru
- adnoddau a chymorth digonol i awdurdodau lleol ac ysgolion hwyluso gweithredu'r mesurau sydd wedi'u hamlinellu yn y Bil
- mae angen deall cydberthynas y Bil â'r cwricwlwm newydd a'r Bil ADY yn iawn a dylid cyfleu a mynegi'r gydberthynas hon yn glir i'r sector

**Hayden Llewellyn**
**Prif Weithredwr CGA**
**30 Medi 2024**